Adroddiad ar

Ysgol Y Berllan Deg

Circle Way East
Llanedern
CF23 9LD

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Berllan Deg

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Y Berllan Deg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 388 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 297 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 50 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 5.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 1.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 33.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2008 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/09/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Wrth galon yr ysgol mae arweinyddiaeth fwriadus a staff ymroddedig sy’n gweithio gyda’i gilydd i greu amgylchedd dysgu gofalgar, croesawgar ac ysbrydoledig. Mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn gosod cyfeiriad strategol addas, gan feithrin cymuned hapus lle mae parch a hunaniaeth Gymreig yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn garedig ac yn aeddfed, gan ddangos parch tuag at staff ac ymwelwyr. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen i lwyddo. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth pwrpasol, gyda staff yn cydweithio’n agos â gwasanaethau allanol i sicrhau cynnydd buddiol.

Mae staff yn ymrwymo i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog, gan gynnwys ymweliadau addysgol a gweithgareddau creadigol fel prosiectau theatr a chyfleoedd i berfformio, sy’n cefnogi dealltwriaeth a diddordeb disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau gadarnhaol tuag at ddysgu, gan ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned. Mae’r athrawon yn cydweithio’n agos ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ystod briodol o lefelau cyrhaeddiad. Er hynny, nid ydynt bob amser yn herio disgyblion yn ddigonol i sicrhau’r cynnydd gorau.

Mae gan yr ysgol drefniadau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant priodol sy’n adnabod rhai elfennau allweddol o’r ddarpariaeth sydd angen eu gwella yn effeithiol. Er hynny, nid ydynt bob amser yn gosod camau gweithredu digon manwl nac yn arfarnu effaith camau gweithredu ar wella ansawdd addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae hanes gwelliant yr ysgol yn anghyson. Mae’r llywodraethwyr yn cymryd rhan ymarferol ym mywyd yr ysgol ac yn gweithio’n frwdfrydig er mwyn gwella dealltwriaeth y gymuned ehangach o fanteision addysg Gymraeg.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion, gan sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd pob dydd. Mae hefyd yn cefnogi rhieni gyda gwersi Cymraeg i hyrwyddo defnydd o’r iaith gartref. Yn ogystal, mae medrau mathemateg a llythrennedd yn cael eu datblygu’n effeithiol, gyda chyfleoedd i ddysgu drwy brofiadau ymarferol a phroblemau bywyd go iawn. Er hynny, mae tuedd i’r athrawon or-arwain a chyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu er mwyn bod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gyda’i chlwstwr i rannu arferion da ac mae trosglwyddo i’r ysgol uwchradd wedi'i drefnu'n dda, gan baratoi disgyblion yn hyderus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau a chysoni darpariaeth

A2. Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a’u datblygu’n ddysgwyr annibynnol

A3. Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth, arweinwyr, a'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu gofalgar a chroesawgar i ddisgyblion. Drwy gydweithio'n agos, maent yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnig awyrgylch cynnes sy'n cefnogi dysgu ac yn meithrin hunaniaeth Gymreig disgyblion. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldebau clir ac, ar y cyfan, maent yn gweithredu eu rolau yn effeithiol.

Mae arweinyddiaeth fwriadus y pennaeth, ynghyd â'r uwch dîm arwain, yn gosod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol, yn unol â’u gweledigaeth i greu cymuned ysgol hapus a chartrefol. Mae’r ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i barch ac i ddatblygu ymdeimlad o Gymreictod ymhlith y disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, staff a disgyblion sy’n sicrhau bod ethos gofalgar a gweithgar yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae ei hymroddiad egnïol a byrlymus yn cyfrannu at sicrhau bod pob disgybl yn derbyn gofal a chyfleoedd dysgu addas.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu trefniadau hunanwerthuso addas ar gyfer monitro'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gosod camau gweithredu digon manwl nac yn arfarnu effaith camau gweithredu ar wella ansawdd addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae hanes gwelliant yr ysgol wedi bod yn anghyson.

Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr ysgol. Maent yn gefnogol, yn adnabod yr ardal maent yn ei gwasanaethu yn dda ac yn gweithio'n frwdfrydig er mwyn gwella dealltwriaeth y gymuned ehangach o fanteision addysg Gymraeg. Er hynny, nid ydynt bob amser yn herio'r arweinwyr ar agweddau allweddol o'r ddarpariaeth yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi'n dda gan dîm ymroddgar a deallus o staff sy'n cydweithio'n ddiwyd i sicrhau bod profiadau dysgu'r disgyblion yn ysgogol ac yn datblygu eu diddordebau'n effeithiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio a dysgu drwy ymweld â lleoliadau lleol, megis Pwll Mawr, sy'n dwysáu eu dealltwriaeth o'r chwyldro diwydiannol. Yn ogystal, mae ymweliadau gan gwmnïau theatr yn cyfoethogi gwybodaeth  disgyblion am ffigurau hanesyddol megis Buddug a Beti Campbell. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, gan ymfalchïo yn eu hysgol a'u cynefin.

Mae'r amgylcheddau dysgu ar draws yr ysgol yn dawel, yn gartrefol ac yn hyrwyddo naws gefnogol iawn. Mae perthynas waith gryf rhwng  staff a disgyblion ym mhob dosbarth. Yn yr arfer orau, mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn bodloni anghenion dysgu llawer o ddisgyblion drwy wahaniaethu'n effeithiol. Er hynny, nid yw athrawon bob amser yn herio disgyblion ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gorau.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Mae athrawon a chynorthwywyr yn gosod disgwyliadau clir o ran parch a moesau, sy'n arwain at ddisgyblion caredig a chwrtais tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Maent yn dangos balchder yn eu hysgol a'u cymuned ac yn ymddwyn yn aeddfed, gan gefnogi ei gilydd yn synhwyrol. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn helpu i feithrin ymddygiad cadarnhaol, gan wneud yr ysgol yn lle diogel a chroesawgar i bob disgybl.

Mae tua hanner o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau sy'n cyfateb i'r disgwyl, neu'n uwch. Er hynny, mae eu medrau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn is na'r disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llafar. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, ac mae'r staff yn fodelau iaith da iawn i'r disgyblion. O ganlyniad, erbyn brig yr ysgol, mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da iawn, maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn annog ei gilydd i siarad Cymraeg wrth sgwrsio'n achlysurol o gwmpas yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y cartref trwy gynnig gwersi Cymraeg i rieni, sy'n cyfrannu at sicrhau bod yr iaith yn rhan naturiol o fywyd bob dydd y disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb naturiol mewn darllen, gyda'r disgyblion ieuengaf yn dechrau gyda llyfrau lluniau cyn symud ymlaen i ddatblygu eu medrau darllen yn annibynnol. Mae llythrennedd yn cael ei feithrin yn dda ar draws y cwricwlwm, gyda'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer gwahanol ddibenion, megis llythyrau perswâd. Mae safonau mathemateg hefyd yn gadarn, gydag athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau mathemategol drwy ddatrys problemau bywyd go iawn.

Mae'r ysgol yn cefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn dda. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, megis creu animeiddiadau neu adeiladu robotiaid. Maent hefyd yn datblygu eu medrau cydweithio a datrys problemau yn dda drwy ddefnyddio technoleg. Mae eu medrau creadigol a chorfforol yn cael eu meithrin yn dda drwy brosiectau celf a gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys plannu llysiau yn yr ardd ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu arferion da gydag ysgolion eraill yn y clwstwr, gan gydweithio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion pob disgybl. Maent yn dechrau cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd sy’n cynnig cydbwysedd priodol o weithgareddau a arweinir gan oedolyn a chyfleoedd i ddisgyblion weithio’n annibynnol. Er hynny, mae tuedd i’r athrawon or-arwain a chyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifildeb am eu dysgu er mwyn bod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan sicrhau bod cynlluniau dysgu'n cael eu haddasu i'w hanghenion unigol. Mae cydweithio cryf rhwng y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a chyrff allanol yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn magu hyder. Gyda’i gilydd, maent yn trefnu hyfforddiant ac arweiniad effeithiol i’r athrawon er mwyn gwella eu dealltwriaeth o sut i gefnogi'r disgyblion ADY o fewn eu dosbarthiadau.

Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain, yn enwedig drwy gyfrannu at bwyllgorau 'llais y disgybl'. Maent yn chwarae rhan weithgar mewn trefnu digwyddiadau codi arian, ac yn ddiweddar, wedi cefnogi elusen cancr leol a phrynu mainc er cof am aelod o staff.

Mae trosglwyddo i'r ysgol uwchradd wedi'i drefnu'n dda iawn, gyda digwyddiadau preswyl a chyfleoedd cyfoethog a chyffrous i ddisgyblion gydweithio â'u cyfoedion hŷn i wneud y broses yn llyfn ac yn llai pryderus. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn barod ac yn hyderus wrth wneud y cam nesaf yn eu haddysg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025